

Dr Gillian Hewitt; Llinell Uniongyrchol: 029 225 10083

Dr Sarah MacDonald; Llinell Uniongyrchol: 029 225 10097

E-bost: wisc@caerdydd.ac.uk

www.cardiff.ac.uk/cy/people/view/38155-hewitt-gillian

www.cardiff.ac.uk/cy/people/view/38133-macdonald-sarah



Wellbeing in Schools & Colleges

Astudiaeth WiSC: Llesiant mewn Ysgolion a Cholegau

Taflen Wybodaeth am yr Ymgynghoriad ag Ymarferwyr Addysg, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Rydych wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori ar-lein, yn rhan o astudiaeth ymchwil am iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae'r daflen wybodaeth hon yn egluro mwy am yr astudiaeth a'r digwyddiad ymgynghori. Cynhelir yr ymgynghoriad [ddydd Mawrth 7 Chwefror o 9 tan 10.30.](#)

1. Beth yw diben yr astudiaeth ymchwil hon?

Prin fu'r ymchwil i'r modd y gall ysgolion, colegau, timau gwaith cymdeithasol a thimau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) gydweithio orau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys y rhai mewn gofal maeth, mewn gofal preswyl, dan Orchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, ac sydd wedi'u mabwysiadu.

Nod yr astudiaeth yw deall profiad plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, a'r rhai sy'n gweithio ym meysydd addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd, o ran cyflenwi a chael darpariaeth iechyd meddwl a llesiant yn achos plant a phobl ifanc (11-25 oed) mewn ysgolion uwchradd a cholegau AB yng Nghymru sydd â phrofiad o ofal.

Bydd canfyddiadau o'r astudiaeth yn cael eu defnyddio i wneud argymhellion i lunwyr polisïau ac ymarferwyr ym meysydd addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd ynghylch y modd i wella'r ddarpariaeth iechyd meddwl a llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd a cholegau AB sydd â phrofiad o ofal.

2. Pam yr wyf wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad?

Mae'n bwysig ein bod yn siarad ag ystod eang o bobl sy'n darparu neu'n cael cymorth iechyd meddwl a llesiant mewn ysgolion a cholegau. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sydd eu hunain â phrofiad o ofal, rhieni a gofawyr, staff ysgolion a cholegau, a'r rhai sy'n ymwneud â darparu cymorth iechyd meddwl a llesiant.

Rydych wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn gan fod gennym ddiddordeb mewn siarad ag **ymarferwyr sy'n gweithio ym meysydd gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd** a chlywed eu profiadau a'u barn am ddarpariaeth iechyd meddwl a llesiant ysgolion a cholegau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yng Nghymru.

3. Beth y bydd yn ei olygu i gymryd rhan?

Hoffem gynnal trafodaethau â chi ac ymarferwyr addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd eraill yn ystod **dau** gam o'r astudiaeth.

Bydd yr **ymgynghoriad cyntaf**, ar ddechrau'r astudiaeth, yn casglu eich barn ar y canlynol:

- yr anghenion cymorth iechyd meddwl a llesiant yn achos myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau sydd â phrofiad o ofal;
- y cymorth cyfredol mewn ysgolion a cholegau ar gyfer myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal;
- anawsterau neu fylchau canfyddedig mewn systemau a gwasanaethau cymorth iechyd meddwl.

Bydd yr ymgynghoriad yn drafodaeth grŵp ar-lein ag ymarferwyr eraill, a bydd yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg. Fe'i cynhelir o bell trwy alwad fideo ar Microsoft Teams, y gellir ei chyrrchu ar gyfrifiaduron neu ffonau clyfar. Bydd y drafodaeth yn para oddeutu 1.5 awr a, gyda chaniatâd y cyfranogwyr, bydd recordiad sain yn cael ei greu ohono. Bydd y recordiad sain yn caniatáu i'r tîm ym Mhrifysgol Caerdydd ysgrifennu cofnod cywir o'r drafodaeth, a bydd yn cael ei ddileu cyn gynted ag y bydd hynny wedi ei wneud. Gallwch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad o leoliad o'ch dewis (e.e. eich cartref neu eich gweithle) ond bydd angen i chi allu siarad mewn man preifat lle na fydd pobl eraill yn gallu torri ar eich traws na'ch clywed.

Bydd yr **ail ymgynghoriad**, ar ddiwedd yr astudiaeth, yn casglu eich myfyrdodau ar ganfyddiadau'r astudiaeth a'r argymhellion drafft (bydd hyn yn debygol o fod ym mis Ionawr 2024 a bydd hefyd yn cael ei gynnal ar-lein).

Bydd yr ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar y cyd ag Exchange Wales.

4. Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Nac oes. Eich penderfyniad chi yn unig fydd cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Os byddwch yn newid eich meddwl ynglŷn â chymryd rhan cyn yr ymgynghoriad neu yn ystod yr ymgynghoriad, gallwch dynnu'n ôl ac ni fydd angen i chi egluro'ch rhesymau. Fodd bynnag, os

dymunwch dynnu'n ôl hanner ffordd trwy'r ymgynghoriad neu ar ôl yr ymgynghoriad, ni fyddwn yn gallu dileu eich data, a hynny am na fyddwn, o bosibl, yn gallu adnabod eich llais ar y recordiad sain, ac am y bydd nodiadau'r ymgynghoriad yn ddienw. Os byddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gallwch wrthod ateb unrhyw gwestiwn yn ystod y drafodaeth.

Os byddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyntaf, ni fydd rhaid i chi gymryd rhan yn yr ail, er y byddwn yn cysylltu â chi gyda gwahoddiad.

5. Beth yw manteision posibl cymryd rhan?

Mae'r ymgynghoriadau'n rhan bwysig o'r astudiaeth. Bydd yr ymgynghoriad cyntaf yn helpu i nodi materion allweddol i'w harchwilio ar y cyd ag ysgolion, colegau, plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ac ymarferwyr yng ngweddill yr astudiaeth. Bydd yr ail yn helpu i fireinio argymhellion yr astudiaeth ar gyfer llunwyr polisi ac ymarferwyr. Bydd canfyddiadau'r astudiaeth hefyd yn cael effaith tymor hwy o ran gwella canlyniadau iechyd ac addysg i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

6. A fydd fy nghyfraniad yn yr astudiaeth ymchwil hon yn gyfrinachol?

Bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu gennych (neu amdanoch) yn ystod yr astudiaeth ymchwil yn cael ei chadw'n gyfrinachol, a bydd unrhyw wybodaeth bersonol a rowch yn cael ei rheoli'n unol â deddfwriaeth diogelu data. Gweler 'Beth a fydd yn digwydd i'm Data Personol?' (isod) i gael rhagor o wybodaeth.

7. Beth a fydd yn digwydd i'm Data Personol?

Prifysgol Caerdydd yw'r Rheolydd Data ar gyfer yr astudiaeth ymchwil hon, ac mae'n ymrwymedig i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau ac yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data, gan gynnwys:

- eich hawliau;
- sail gyfreithiol Prifysgol Caerdydd ar gyfer prosesu eich data personol ar gyfer ymchwil;
- Polisi Diogelu Data Prifysgol Caerdydd;
- y modd i gysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Caerdydd;
- y modd i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, i'w cael yma

www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch (e.e. eich enw a'ch cyfeiriad e-bost cyswllt) yn cael ei storio'n ddiogel trwy gydol yr astudiaeth fel y gallwn gysylltu â chi i'ch gwahodd i'r ail ymgynghoriad. Yna bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch yn cael ei dinistrio, oni bai eich bod wedi dewis cael gwybod am ganfyddiadau'r astudiaeth.

Bydd yr ymgynghoriadau'n cael eu recordio ar dâp, ond dim ond i ysgrifennu nodiadau am y trafodaethau y bydd y recordiadau'n cael eu defnyddio. Ni fydd y recordiadau'n cael eu trawsgrifio a byddant yn cael eu dinistrio cyn gynted ag y bydd y nodiadau wedi'u hysgrifennu. Bydd y nodiadau'n crynhoi'r hyn a ddywedwyd, ond ni fyddant yn cofnodi pwy a ddywedodd beth nac enwau unrhyw gyfranogwyr neu wybodaeth adnabyddadwy. Defnyddir y nodiadau

i lunio crynodeb ysgrifenedig o bob ymgynghoriad, a fydd yn ffurfio rhan o'r data ymchwil ar gyfer yr astudiaeth.

8. Beth a fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn cael eu rhannu â llunwyr polisi ac ymarferwyr ym meysydd addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd, a hynny trwy gyfrwng cynadleddau, cyhoeddiadau, a briffiau polisi, gan gynnwys briff ar gyfer darllenwyr iau. Ni fydd unrhyw gyflwyniad na chyhoeddiad yn datgelu pwy ydych chi.

9. Beth os bydd yna broblem?

Os byddwch am gwyno neu os bydd gennych bryderon am unrhyw agwedd ar y modd yr ydym wedi delio â chi yn ystod yr ymchwil hon, cysylltwch â Gillian Hewitt neu Sarah MacDonald. Os na chaiff eich cwyn ei rheoli'n foddhaol, cysylltwch â'r Athro E.J. Renold, Cadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd, (socsi-ethics@caerdydd.ac.uk; 029 208 75389).

Os byddwch yn cael niwed o ganlyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon, nid oes yna unrhyw drefniadau iawndal arbennig ar waith. Os byddwch yn cael niwed o ganlyniad i esgeulustod rhywun, mae'n bosibl y bydd gennych sail ar gyfer camau cyfreithiol, ond gallai fod yn ofynnol i chi dalu am hynny.

10. Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r astudiaeth ymchwil hon?

Trefnir yr ymchwil gan Gillian Hewitt a Sarah MacDonald o'r Ganolfan Datblygu, Gwerthuso, Cymhlethdod a Gweithredu ym maes Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer), Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd. Ariennir yr ymchwil gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (www.ymchwiliachydagofalcymru.org/).

11. Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth ymchwil hon?

Mae'r astudiaeth ymchwil hon wedi cael ei hadolygu, ac wedi cael barn ffafriol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd (cyfeirnod 301).

12. Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth hon neu'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni yn ystod oriau gwaith arferol:

Gillian Hewitt, wisc@caerdydd.ac.uk; 029 225 10083

Sarah MacDonald, wisc@caerdydd.ac.uk; 029 225 10097

Os hoffech gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, llenwch y [ffurflen hon ar wefan](#) Prifysgol Caerdydd a bydd ymchwilydd yn cysylltu â chi.

Diolch am ystyried cymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.